COFNODION CYFARFOD BLYNYDDOL CYHOEDDUS NEUADD GYMUNED
TALSARNAU GYNHALIWYD NOS LUN, 1AF MEHEFIN 2026

Presennol : Sion Richards (Cadeirydd), Carwyn Richards, Margaret Roberts
Anwen Roberts, Gwenda Griffiths, Siriol Lewis, Eluned Williams
Eirlys Williams, Celt Roberts, Colin Rayner, Owen Lloyd Roberts
Eifion Williams, Mai Jones (13)

Hefyd yn bresennol y Cynghorydd Gwynfor Owen.
Nid oedd neb o'r cyhoedd yn bresennol yn y cyfarfod.
Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd, gan estyn croeso arbennig i'r Cynghorydd Gwynfor Owen. Hefyd da oedd gweld Colin Rayner yn gallu mynychu, wedi gwella ar ôl y ddamwain car a gafodd o ganlyniad i gael ei daro gan yrrwr diofal.

Cyflwynwyd gopi o **Gofnodion Cyfarfod Cyhoeddus 20 Mai 2025 i sylw'r aelodau a'u derbyn yn gywir.**

Adroddiad Ariannol 2025-26
Roedd yr aelodau wedi derbyn copi o'r adroddiad ac wedi cael cyfle i edrych drwyddo cyn y cyfarfod. Gwahoddwyd Margaret, y trysorydd i gyflwyno'r adroddiad a gwnaeth ychydig o sylwadau ar y cynnwys - tynnwyd sylw at y ffaith bod y neuadd wedi derbyn llawer o grantiau yn ystod y flwyddyn a diolchwyd i rai o aelodau'r pwyllgor fu'n gyfrifol am hyn. Cafwyd ad-daliad gan Scottish Power ar ôl hir ymdrechu i fynd ar ôl yr hyn oedd yn ddyledus, nodwyd gyda diolch bod cyfraniad da iawn yn dod o Glwb y Werin a diolchwyd i Betsan Emlyn am gyfrannu'r elw o'r trip siopa i Lerpwl ym mis Tachwedd. Rhoddwyd cyfle i bawb ofyn cwestiwn neu ddatgan unrhyw sylwadau.

Ni ddaeth ymholiad pellach a **chytunwyd i dderbyn yr Adroddiad Ariannol am 2025-26 yn dangos cyfanswm o £46,288.26 yn y banc ar 31 Mawrth 2026.**

Diolchwyd i Margaret am ei holl waith yn gofalu am yr arian ac yn paratoi'r adroddiad yn daclus iawn. Diolchodd hithau i Phil Mostert am archwilio'r cyfrifon.

Roedd un mater wedi'i godi yng Nghyfarfod Blynyddol Mai 2025 gyda'r Cynghorydd Gwynfor Owen ynglŷn â chael arwyddion ar ochr y briffordd yn dynodi lleoliad y neuadd. Da oedd cael adrodd bod y mater yma mewn llaw ac arwyddion wedi'u harchebu i'w gosod mewn lle amlwg ger y briffordd. Diolchwyd i'r Cynghorydd am ei gymorth gyda hyn.

Ni chodwyd yr un mater arall yn y cyfarfod a chyn gadael i fynd i gyfarfod arall yn Harlech, cyflwynodd y Cynghorydd ei longyfarchiadau i'r pwyllgor am eu gwaith da a'u gofal arbennig o'r Neuadd ac yn eu canmol am yr Adroddiad Ariannol ardderchog.

Daeth y cyfarfod i ben am 19.30.

Cadeirydd :.....
(Sion Richards)
Dyddiad : .....

MANTOLEN NEUADD GYMUNED TALSARNAU					
1 EBRILL 2025 - 31MAWRTH 2026					
DERBYNIADAU	**2025-2026**	**2024-2025**	**TALIADAU**	**2025-2026**	**2024-2025**
GRANTIAU			**OFFER A DODREFN**		
Cyngor Cymuned , Hysbysfwrdd		470.00	Defn Glanhau	16.18	15.99
Cyngor Cymuned, Cymorth Ariannol	2000.00	2000.00	Amazon key safe	18.99	49.99
Mantell Gwynedd, Grant Gegin	9437.00		Amazon, Rests Snwcer	25.66	158.98
Grant Cyfrifiaduron Trysorau	4076.94		Motel, Trays I'r Gegin	19.10	
Grant Sportlot, Byrddau Snwcer	2354.00		Lidl |Tecell Trydan	18.99	
Grant Nuclear Restoration Fund	1460.00		Leisure Controls International, token snwcer	75.12	
GOSODIADAU					
Tai Chi	360.00		**CYNNAL A CHADW**		
Cyngor Gwynedd – defn gan yr Ysgol	4333.37		Elgan Tudur Lewis, Gosod y Gegin	3243.30	
Canolfan Wm Mathias Canfod y Gan	30.00	60.00	Ian Jones, Tiwnio Piano	85.00	
Mudiad Ysgolion Meithrin-Ti a Fi	60.00	138.00	Dafydd Morgan		3962.00
Plaid Cymru			Wigglesworth Rampiau		20811.60
Parti Nadolig Capel Newydd	35.00		Haydn Rayner	212.50	
Camargue Group (Peilonau)			Colin Rayner		40.00
Partion	400.00	299.00	Richard John, Pensaer		
Cyngor Cymuned,	210.00		Dafydd Price, Gwresogydd		1960.00
Merched y Wawr	90.00	75.00	Allied Westminster - yswiriant	2417.29	2247.21
Wigglesworth		50.00	BT - ffon	1069.47	992.42
Cymdeithas Snwcer Ffestiniog	25.00	50.00	Scottish Power - trydan	2928.66	3431.88
Cor Cana Mi Gei	720.00	580.00	Banwy Fuels - olew	1142.40	1778.70
Cylch Ffensio Meirionnydd	40.00	240.00	Dwr Cymru	404.86	261.31
Pilates Carysmatic	887.50	720.00	Snowdonia Fire - offer tan	451.87	165.60
Cyngor Gwynedd, Etholiadau		250.00	Daniel Hughes, Glanhau tu allan		495.00
Pilates Lauren	460.00	400.00	Defib World, Batteries a pads		460.99
Angladdau		130.00	Travis Perkins, dodrefn gegin	6105.10	
Cyfeillion Ellis Wynne	15.00	145.00	Trwydded Deledu	174.50	169.50
Band Arall	20.00		Cleaner Carpets		96.00
Cwmni Dawns DCC	817.50		Cyngor Sir Gwynedd - les y tir	0.05	0.05
Cyngerdd Cana Mi Gei	65.00	65.00	Mantell Gwynedd, Ffi ymaelodi	10.00	10.00
Dawnsio Cylch		36.00	Alliance Snooker,	2976.00	
Awel Evans, Tylino Babanod	75.00		A T L Heating. Boiler	154.75	497.04

Dosbarth Gwnio	155.00		I S Lester, Silff ddur		125.00
Swyddfa'r Post		204.75	Gwariant Grant NRS	1460.00	
CODI ARIAN					
Scottish Pwer, Ad-daliad	2091.59		G & S Supplies, Defn glanhau	133.66	68.41
Raffl Pedair		160.00			
Noson Titanic, Plemming	76.00	48.00	Andrew James, Cricieth, Wifi	172.80	172.80
Trip Lerpwl	400.00	220.00	Criccieth TV CCTV		
Ffair Nadolig	657.00	726.27	Robert Morris, Noson Wrthryfel	40.00	
Eventbright, tocynnau PEDAIR		670.01			
PEDAIR gwerthiant diod		45.00			
Noson Bingo Nadolig	46.45				
Clwb y Werin	1200.00	900.00	Sion Richards, Tywod		32.76
Noson Bingo Ship	100.00		Ink Argraffu		
Rhoddion	70.00	25.00	Netnerd Site Hosting	129.48	129.48
Menthyg Byrddau	50.00		HP In Ltd. Argraffydd Trysorau	124.12	
Sgwrs Arwyn Jones, Frongoch		68.50	Names.Co.Uk	97.19	
Noson Sion Tecwyn		41.00	Cyfrifiaduron Porthmadog,Cyf Trysorau	3952.82	45.99
Cyfeillion y Neuadd	530.00	515.00	Trysorau, papur llungopio	25.69	
Costau Trydan Ysgol Gynradd	181.49		Cyflog Gofalwr	8177.05	7322.77
Sel Cist Car	289.90		Treth Incwm Gofalwr	2351.40	1802.80
Ystafell Snwcer	1402.00	1175.00	Laud Meredith, Cyflogres	348.00	336.00
Ras Llandecwyn	100.00	50.00	Flickr Cytundeb 2 flynedd	124.00	
Noson Bob Morris, Ysgol Wrthryfel	47.10		Cyngor y Celfyddydau, Noson Allan	510.00	815.00
Hysbysebu ar safle we Talsarnau		50.80	Rhodd I'r Gofalwr	250.00	
Gwerthiant llyfrau yn y cyntedd	82.00	117.00			
Incwm Paneli Solar	1898.81	1877.92	Hysbysebu yn Llais Ardudwy		
Llogau Banc - Cyfrif cadw	620.26	1121.04	Costau Banc	74.03	103.40
Nosweithiau Allan	1124.18	90.00			
Er côf am Iona Aubrey		609.96			
Er côf am Keith Lockett	161.58				
Rhodd gan y Ship Aground		200.00			
HENO, Rhaglen stafell snwcer	150.00				
Cyfanswm Derbyniadau	**39404.67**	**14623.25**	**Cyfanswm Taliadau**	**39520.03**	**48558.67**
Yn y Banc 31 Mawrth 2025			**Yn y banc 31 Mawrth, 2026**		
Cyfrif Cyfredol	2674.90	1731.36	Cyfrif Cyfredol	3085.28	2674.90
Cyfrif Llôg	43728.72	78607.68	Cyfrif Llôg	43202.98	43728.72

Cyfanswm	**85808.29**	**94962.29**	**Cyfanswm**	**85808.29**	**94962.29**
Margaret Roberts			Archwilwyd gan:		
Trysorydd ……..					
Dyddiad :			Dyddiad: ….....		

Bryn Awel,
Ffordd Uchaf,
Harlech.

23 Ebrill, 2026

Rwyf wedi archwilio ac adolygu cyfrifon Neuadd Gymuned Talsarnau am y flwyddyn 2025-26 yn drylwyr ac rwyf yn cadarnhau eu bod yn hollol gywir.

Phil Mostert.

Phil Mostert